



CREATIVITY IN THE UK

## COFNODION CYFARFOD BWRDD FESTIVAL 2022 CYF

(y "Cwmni" a "Festival 2022 Ltd")

**TRWY GYNHADLEDD FIDEO DYDD MERCHER 22 MEHEFIN 2022, 10:00 – 14:30**

ar gyfer UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU (y "Rhaglen" ac "UNBOXED")

### Yn bresennol:

Y Fonesig Vikki Heywood DBE (VH)  
Faraz Tasnim (FT)  
Dr. Hayaatun Sillem CBE (HS)  
Rob Smith MBE (RS)  
Dr. Maggie Aderin-Pocock MBE (MAP)  
Yr Athro Andrew Thompson CBE (AT)  
Priya Lakhani OBE (PL)  
Liam Hannaway (LH)  
Dr. Bridget McConnell CBE (BMcC)

Cadeirydd y Bwrdd, Cyfarwyddwr Anweithredol  
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol  
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol  
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol  
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol  
Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol  
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Lloegr  
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli Gogledd Iwerddon  
Cyfarwyddwr Anweithredol, yn cynrychioli'r Alban

### Arsylwyr y Bwrdd yn bresennol:

Emma Squire (ES)

Llywodraeth y DU, Yr Adran Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y  
Cyfryngau a Chwaraeon ("DCMS")

Catriona MacKenzie (CMK)

Llywodraeth yr Alban

Gerwyn Evans (GE)

Llywodraeth Cymru

### Hefyd yn bresennol:

Martin Green CBE (MG)  
Phil Batty (PB)  
Ian Reid (IR)  
David Grady (DG)  
Caroline McGrory (CMG)  
Bea Hendry (BH)  
Lucy Bailey (LB)  
Ben McKnight (BMcK)  
Sam Skillings (SS)  
Sam Hunt (SH)  
Hilary O'Shaughnessy (HO'S)  
Adel Al-Salloum (AAS)  
John Darnbrook (JD)  
Marie-Therese Chitnis (MTC)  
Chris Ricketts (CR)  
Morgan Summers-Smith (MSS)  
Laura O'Flynn (LO'F)  
Laura O'Donnell (LO'D)

Prif Swyddog Creadigol  
Cyfarwyddwr Gweithredol  
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifeg  
Prif Swyddog Ariannol  
Prif Swyddog Cyfreithiol  
Pennaeth Rhaglenni  
Uwch Gwnsler Cyfreithiol  
Cyfarwyddwr Cyfathrebu (eitemau 3-6)  
Pennaeth Cynulleidfaoedd a Marchnata (eitemau 3-6)  
Cyfarwyddwr Rhaglen (eitemau 4-6)  
Cyfarwyddwr Comisiynu (eitemau 4-6)  
Pennaeth Partneriaethau Creadigol (eitemau 4-6)  
Pennaeth Integreiddio Busnes (eitem 4-6)  
Rheolwr Gwaddol ac Effaith (eitem 4)  
Uwch Gynhyrhydd (eitemau 6a-6 b)  
Rheolwr Ymgyrchoedd Strategol (eitem 6a)  
Rheolwr Llywodraethu (Cofnodwr)  
Rheolwr Prosiect Cynorthwyol

### Aelodau Tîm Creadigol yn Cyflwyno a oedd yn bresennol:

Angie Baul (AB)  
Natalie Adams (NA)  
Louise Dennison (LD)  
Selina Ocean (SO)  
Beryl Dzambo (BD)  
Fenella Dawnay (FD)  
Luke Macpherson (LM)

Trigger, Cyfarwyddwr Creadigol (eitem 6a)  
Trigger, Cyfarwyddwr Gweithredol (eitem 6a)  
Trigger, Pennaeth Dysgu ac Ymgysylltu (eitem 6a)  
Trigger, Rheolwr Datblygu Digidol (eitem 6a)  
Trigger, Pennaeth Cyfathrebu (eitem 6a)  
Trigger, Uwch Gynhyrhydd (eitem 6a)  
Trigger, Cynhyrhydd (eitem 6a)

## **54/22 Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Amali de Alwis, Roger Lewis, Louise Hyland a Richard Walsh, er croesawodd y Bwrdd Catriona Mackenzie i gynrychioli Llywodraeth yr Alban.

Ymddiheurodd y Cadeirydd nad oedd hwn yn gyfarfod wyneb yn wyneb fel y cynlluniwyd yn Birmingham ac felly'r siom o beidio â bod yn bresennol yn y Glec Fawr. Yn anffodus roedd y streiciau trên wedi gwneud logisteg yn heriol.

Dywedodd y Cadeirydd gyda gofid fod Roger Mosey wedi ymddiswyddo o'i swydd yn gyfarwyddwr ar y Bwrdd ar 28 Ebrill. Roedd y pwysau cynyddol ar ei amser a'n dyddiadau ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd wedi golygu nad oedd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau fel y byddem yn dymuno. Mae'r Bwrdd yn drist i'w weld yn mynd ond roedd wedi rhoi sicrwydd i'r Cadeirydd y byddai'n parhau'n agos ac yn eiriolwr lleisiol dros y prosiect o'i fan ffafril y tu allan. Nid yw'r Bwrdd yn bwriadu cael rhywun yn ei le, gan y credid ei bod yn rhy hwyr yn y daith i gyfarwyddwr newydd gyrraedd a chyflawni'r swydd. Diolchodd y Cadeirydd yn ffurfiol i Roger am bopeth a wnaed ganddo - am ei gyngor i'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Creadigol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn ogystal â chyfraniadau fel cyfarwyddwr Festival 2022 Ltd.

Gofynnodd y Cadeirydd am ddatganiad buddiannau ynghylch unrhyw beth ar yr agenda a dywedodd BMcC ei bod wedi'i phenodi'n ddiweddar i fwrdd Scottish Power Renewables o 21 Mehefin 2022 a bydd hefyd yn Is-lywydd Anrhydeddus Conservatoire Cenedlaethol yr Alban o 30 Mehefin 2022, ochr yn ochr â'r penodiad yn aelod Cyngor o Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a Dyniaethau UKRI ar 01 Ebrill 2022. Llongyfarchodd y Bwrdd BMcC a byddai LO'F yn diweddarau'r gofrestr yn unol â hynny.

## **55/22 Cymeradwyo Cofnodion a Materion yn Codi**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2022 yn gofnod cywir a bydd yn cael e lofnodi'n briodol gan y Cadeirydd yn electronig gyda chopi wedi'i olygu yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod eithriadol a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2022 yn gofnod cywir a bydd yn cael ei lofnodi'n briodol gan y Cadeirydd yn electronig gyda chopi wedi'i olygu yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod arbennig y Bwrdd a gynhaliwyd ar 20 Mai 2022 yn gofnod cywir a bydd yn cael ei lofnodi'n briodol gan y Cadeirydd yn electronig gyda chopi wedi'i olygu yn cael ei gyhoeddi ar y wefan.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at bwysigrwydd cofnodion fel cofnod ffurfiol o safbwynt y Bwrdd ar faterion allweddol, yn benodol wrth ddarparu cyfarwyddyd i'r Weithrediaeth ar faterion strategol.

Nododd y Cadeirydd fod hwn yn gyfarfod ffurfiol gydag agenda safonedig ac amser sylweddol wedi'i neilltuo ar gyfer yr astudiaeth ddofn o'r gwaddol a'r astudiaeth ddofn

derfynol o'r comisiwn gan PoliNations. Wrth adolygu hyn, rhoddodd y Cadeirydd fanylion ynghylch yr eitemau i'w trafod ac i benderfynu arnynt.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd materion yn codi a nododd bod cynnydd o ran y camau gweithredu a oedd yn weddill gan gau'r adolygiad o leoli STEAM drwy gydol y gwaith gwerthuso i sicrhau ei fod yn cael ei gynrychioli ynghyd â'r Adroddiad Adolygu Diogelwch a Sensitifrwydd Dreamachine a gyflwynwyd i'r Bwrdd.

Rhoddodd y Tîm Gweithredol yr wybodaeth ddiweddaraf sef bod adroddiad cyntaf wedi'i dod i law a oedd angen gwelliannau a bod adborth wedi'i anfon.

## **56/22 Diweddariad ar Gamau Effeithiolrwydd y Bwrdd**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Log y Camau gweithredu i bwysleisio cryn gynnydd a rhoi sicrwydd bod yr holl gamau a oedd yn weddill ar y gweill gyda'r nod o ddod i ben yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

## **57/22 Diweddariad Gweithredol**

Trosglwyddwyd y gadair i MG a PB ar gyfer eu cyflwyniad.

Dywedodd MG bod ail-drefnu adnoddau wedi digwydd yn y swyddfa i greu strwythur gweithredol a fyddai nawr yn cefnogi sefyllfa bresennol y rhaglen er mwyn cyflawni'r gweddill.

Un maes i'w nodi oedd y "clystyrau" newydd oedd yn grwpio'r comisiynau gyda'i gilydd, er enghraifft byddai prosiectau gydag ap yn eistedd gyda'i gilydd, er mwyn rhoi mwy o bwyslais ac i gyrraedd eu potensial. Teimlai PB y byddai'r newidiadau sefydliadol yn cefnogi caffael adnoddau gan sicrhau bod yr holl sgiliau'n cael eu defnyddio a bod unigolion wedi'u buddsoddi yn eu llesiant a'u datblygiad, nid oedd yn ateb perffaith ac mae cael adnoddau yn parhau i fod yn risg goch ac ar flaen yr agenda mewn trafodaethau yn y Tîm Rheoli Gweithredol. Roedd y Tîm Gweithredol wedi cynyddu nifer y bobl yn MarComms a nododd y byddai adnodd ar gael yn dilyn y Gemau.

Darparodd MG ddiweddariadau eang iawn ar uchafbwyntiau allweddol gan y comisiynau byw a nododd fod rhagolwg StoryTrails ar agor y penwythnos hwn hefyd cyn agor i'r Bwrdd ar gyfer sylwadau.

Cododd LH bryderon ynghylch hyrwyddo StoryTrails ar ôl ei weld yng Ngogledd Iwerddon ac roedd yn teimlo bod angen i ni wthio deunyddiau marchnata allan i greu mwy o effaith. Sicrhaodd SS bod tîm StoryTrails wedi bod mewn cysylltiad ag unigolion allweddol yng Ngogledd Iwerddon, gyda llawer o weithgaredd mewn llyfrgelloedd lleol, mae'r Asiantaeth Ddarllen yn cefnogi'r hyrwyddo, gyda mwy o yrfathrebu i ddod dros yr wythnosau i ddod.

## **CAM GWEITHREDU: SS i ddarparu diweddariad i LH mewn cysylltiad â hyrwyddo StoryTrails yng Ngogledd Iwerddon.**

Rhoddodd AT ddiweddariad ar ymweliad diweddar â Phrifysgol Glasgow lle mae economi greadigol a chyfranogiad yn un thema allweddol ar gyfer eu canolfan ymchwil uwch ac roedd yn teimlo ei fod yn gyfle.

**CAM GWEITHREDU: AT i gyflwyno MG i unigolion allweddol ym Mhrifysgol Glasgow er mwyn archwilio cyfleoedd posibl.**

Yna rhoddodd PB ddiweddariad ar risgiau coch.

**CAM GWEITHREDU: Y Cadeirydd i gytuno ar wirfoddolwr y Bwrdd i gefnogi PoliNations.**

Llongyfarchodd y Bwrdd y tîm yn benodol am eu hymdrechion a'u cynnydd gyda SEE MONSTER, gan gydnabod lefel y cymhlethdod a oresgynnwyd gyda'r rheoliad, cyfreithiol a logisteg.

Teimlai AT mai hidlo gwersi i nodi beth oedd yn ein gallu a'r hyn sydd angen caniatâd y llywodraeth ddylai fod elfen allweddol y gwaddol a chredai y dylai'r Bwrdd fod yn uchelgeisiol i herio'r Llywodraeth o ran sut y gellid ei wneud yn wahanol.

Roedd HS wedi ei galonogi gan y naws bositif, fodd bynnag roedd â diddordeb mewn gwybod sut mae hyn yn effeithio ar linellau amser a pharamedrau. Ymatebodd PB.

Nododd MAP hyblygrwydd cyfyngedig y dyddiau i symud ac roedd yn gwerthfawrogi y byddai cost i bob dydd. Roedd y Bwrdd yn deall mai dyma'r penderfyniad a gymerwyd ganddynt ac fe gawsant eu calonogi gan y ffaith bod ARAC yn monitro'r proffil risg a'r cyllid yn fanwl.

**58/22 Adroddiad ARAC**

Trosglwyddwyd y Gadair i FT. Dywedodd FT fod cyfarfod ARAC yn anffodus wedi'i ganslo oherwydd gwyliau blynyddol ac felly ni fyddai yna gworwm. Ceisiwyd aildrefnu dyddiad ond methwyd a chytunwyd i bleidleisio drwy ohebiaeth e-bost, ar ôl darllen y papurau. Aeth PB drwy ganlyniad y penderfyniadau.

- CYMERADWYWYD Cofnodion Cyfarfod ARAC a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2022.
- CYMERADWYWYD Cofnodion Cyfarfod ARAC a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2022.
- CYMERADWYWYD Cofnodion Cyfarfod ARAC a gynhaliwyd ar 12 Mai 2022.
- NODWYD y Diweddariad i'r Rhestr Camau Gweithredu.
- NODWYD a CHYMERADWYWYD y Diweddariad Rheoli Risg Strategol a Chrynodeb Gweithredol Adroddiad y Portffolio.
- NODWYD a CHYMERADWYWYD y diweddariadau a ddarperir gan Archwiliad Mewnol.
- ADOLYGWYD y Diweddariad Diddymu, ond teimlid bod angen amser mewn cyfarfod ARAC i drafod ymhellach ac ystyried y risgiau a'r adroddiad cyffredinol.
- CYMERADWYWYD yr Adroddiad Perfformiad Ariannol.
- CYMERADWYWYD y llythyr cadarnhau sydd yn y Memorandwm Sicrwydd Llywodraethu Blynyddol ac ADOLYGWYD yr adroddiad ategol.
- CYMERADWYWYD y papur ar Lywodraethu Diwedd Blwyddyn y DCMS.

**59/22 Perfformiad Ariannol ac Adolygiad o Gyllideb**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y papur (a dderbyniwyd yn ddi-gwestiwn) a dywedodd fod hyn wedi ei gymeradwyo gan yr ARAC.

**60/22 Lleoli Strategol Gorffennaf i Hydref**

Ymunodd BMcK ac SS â'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd MG a PB i gyflwyno.

Atgoffodd MG bawb, gyda 6 o'r 10 comisiwn bellach yn fyw, bod y marc 100 diwrnod yn cynnig cyfle i ystyried, ail ganolbwyntio a blaenoriaethu gweithgaredd wrth i ni deithio trwy'r Haf ac i mewn i'r Hydref. Rhoddodd MG sylwadau ar sut i optimeiddio'r prosiectau sy'n weddill i gyflawni 'da' i 'wych', camau i adeiladu ymwybyddiaeth genedlaethol, cynyddu ymgysylltiad, adeiladu ar naratif buddsoddi ar swyddi/sgiliau/dysgu a sut i lunio'r naratif parhaol ar gyfer y prosiect ym meddyliau'r cyhoedd.

Aeth PB drwy gyflwyniad a oedd yn atgoffa'r Bwrdd o strwythur yr ymgyrch, gwersi a ddysgwyd o gam 3, heriau allweddol cyfredol, mesurau perfformiad, ffactorau llwyddiant hanfodol a syniadau ynghylch llinell amser olaf gweithgaredd gyda chynlluniau arfaethedig ar gyfer 'Super September'.

Agorodd y Cadeirydd drafodaeth gan y Bwrdd.

Teimlai PL ei bod yn bwysig i'r Bwrdd adolygu'r data, y fethodoleg wrth ddadansoddi a chael dealltwriaeth ddyfnach o'r newidiadau rhwng ein strategaeth ni a'r hyn sy'n cael ei gyflawni nawr. Cytunodd y Cadeirydd a'r Bwrdd i dderbyn data gan deimlo y dylid ystyried y gwerth posibl mewn cyfarfod gweithgor gorchwyl a gorffen ar waddol.

**CAM GWEITHREDU: Y Cadeirydd / PL i ystyried cynnal gweithgor gorchwyl a gorffen ar Waddol.**

Credai H S ei bod yn hanfodol bod stori gyfan UNBOXED yn cael ei hadrodd. Mae ymwybyddiaeth y gymuned STEM yn llai na'r disgwyl. Roedd MG yn cydnabod bod hyn yn fater heriol.

Roedd AT o'r farn y byddai'n waddol pwerus pe bai comisiwn ar greadigrwydd a thechnoleg yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o UNBOXED i fynd ati i lunio rhaglenni'r dyfodol.

Cyfeiriodd BMcC at yr effeithiau cadarnhaol ar swyddi a chydlyniant cymunedol yn dilyn ymweliad â'r digwyddiadau byw. Roedd yr ymdeimlad gan dimau creadigol o hapusrwydd a chydabyddiaeth o gyfle yn amlwg a gobeithid y byddai monitro gwerthuso yn dal hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm gweithredol am y diweddariad ac i'r Bwrdd am y drafodaeth.

**CAM GWEITHREDU: MG / PB i rannu'r adroddiad data â'r Bwrdd, gan ystyried llinell amser data gyda gweithgaredd dangosyddion perfformiad allweddol.**

Tynnodd PL sylw at werth y trafodaethau astudiaeth ddofn ar waddol sydd ar fin digwydd a gofynnod am sicrwydd na fyddai'r iaith mewn gwaddol yn cael ei chymysgu gyda buddion presennol y rhaglen, gan fod y gwaddol a'r buddion presennol yn wahanol.

Gadawodd PL y cyfarfod. Ymunodd JD, SH, HO'S, ASS a MTC â'r cyfarfod.

## 61/22 Astudiaeth Ddofn o Waddol

Croesawodd y Cadeirydd Marie-Therese Chitnis, Rheolwr Gwaddol ac Effaith i'r cyfarfod. Derbyniwyd y papur yn ddi-gwestiwn a mynegodd PB y bu heriau pensaernïol ynghyd â haenau llywodraethu, felly mae llithriadau gwaddol yn seiliedig ar bopeth yr ydym yn ei wybod heddiw.

Gofynnodd BH i'r Bwrdd roi cymeradwyaeth ar gyfeiriad teithio a sicrhau bod y Timau i gyd yn meddwl am waddol er mwyn nodi a chefnogi'n rhagweithiol i gynyddu'r cyfle gorau i lwyddo. Tynnodd MTC sylw at benawdau gwaddol allweddol o'r fframwaith, ac yna i ddilyn, enghreifftiau bywyd go iawn o'r comisiynau a oedd wedi mynd yn fyw.

Pwysleisiodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig nodi nad yr amcan oedd creu gwaddol wedi'i drefnu ymlaen llaw ac felly mae'n rhaid i'r pwyslais aros ar gyflenwi. Roedd y Cadeirydd wedi ei chalonogi o weld yr ystyriaethau gwaddol ac roedd yn teimlo y byddai'n naturiol iddo ddeillio o brosiectau a dylanwadu ar feddwl yn y dyfodol. Agorodd y Cadeirydd drafodaeth y Bwrdd.

- Gwireddu gwaddol – roedd y Bwrdd yn ystyried bod rhai gwaddolion yn cael eu gwireddu ymhell ar ôl prosiect, hyd yn oed 10 mlynedd wedyn. Er enghraifft, taith Nerve Centre yn dilyn Dinas Diwylliant 10 mlynedd yn ôl. Nododd y Bwrdd y dylid cynnwys buddion y gwaddol o Ymchwil a Datblygu'r 30 tîm ehangach, llawer o straeon i'w tynnu y tu hwnt i'r deg. Hysbyswyd HO'S fod manteisio ar brosiectau yn y dyfodol yn rhan o'r ystyriaethau gwreiddiol o fewn y prosiectau a gomisiynwyd.
- Enghreifftiau o waddol o'r gorffennol – cymeradwyodd y Bwrdd gydbwysedd amserlenni ac argymhellodd bod y data'n cael ei boblogi i greu enghreifftiau y gall y Bwrdd wneud sylwadau arnynt a llunio'r gwaith o symud ymlaen, gan ddefnyddio enghreifftiau llwyddiannus o'r gorffennol i gefnogi lle mae'r ystadegau ar gael yn gyhoeddus. Y realiti yw y bydd y gwaddol yn esblygu dros gyfnod sylweddol hirach na'r wyl ei hun.
- Gofynnodd HS am eglurhad ar beth fyddai canllaw'r RSA ar ddychymyg ar y cyd, er enghraifft diben, cynulleidfa ac ati.
- Mae'n rhaid ystyried mynegi gwerth 4 cenedl yn gweithio gyda'i gilydd.
- Mae'n rhaid i naratif gwaddol droi data yn effaith hirdymor.

Diolchodd y Cadeirydd i MTC am ei phresenoldeb ac edrychodd ymlaen at y diweddariad nesaf am waddol.

**CAM GWEITHREDU: BH / MTC i ystyried ac ymgorffori adborth y Bwrdd yn y diweddariad nesaf am waddol.**

Gadawodd MTC y cyfarfod.

## 62/22 Unrhyw Fusnes Arall

Nododd y Bwrdd 'dim busnes arall'. Dywedodd PB fod y Bwrdd wedi cael gwahoddiad i fod yn westeion yng Ngemau'r Gymanwlad ac i ddisgwyl gwahoddiad yn fuan.

Ymunodd tîm Creadigol PoliNations, CR a MSS â'r cyfarfod.

## 63/22 PoliNations: Astudiaeth Ddofn

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r tîm a oedd yn gweithio ar y prosiect PoliNations.

Dywedodd y Tîm fod PoliNations wedi'i gynhyrchu gan Trigger sy'n ceisio creu a chynhyrchu digwyddiadau byw a digidol annisgwyl sy'n torri ar draws bywyd bob dydd, ail-ddychmygu ac adfywio manau cyhoeddus, a rhoi cynulleidfaoedd yng nghanol y gweithgaredd.

Mae PoliNations yn ardd benigamp rithiol yn Birmingham sydd â'r negeseuon allweddol canlynol:

- Ar agor i bawb
- Uno cymunedau
- Creu lleoedd
- Ymgysylltu torfol
- Cynaliadwyedd
- Cydweithio creadigol unigryw
- Dathlu eich gwahaniaeth
- Dathlu Prydain amlddiwylliannol.

Rhoddodd y tîm ddiweddariad ar feysydd gan gynnwys manylion am y canlynol:

- Prif gynulleidfaoedd
- Elfennau prosiect allweddol – gosod
- Ymrwymadau cynaliadwyedd
- Rhaglen
- Partneriaid y rhaglen
- Gwaddol a theithio yn y dyfodol
- Dysgu a chyfranogi / ymgysylltu
- Technoleg Ddigidol
- Hygyrchedd
- Diweddariadau allweddol – heriau
- Risgiau wrth symud ymlaen
- Symud ymlaen, e.e. Strategaeth Ap, Podlediadau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu cyflwyniad gan deimlo ei fod yn gyffrous. Holodd y Bwrdd y cwestiynau a'r pwyntiau trafod canlynol:

- Perthynas â Gŵyl Birmingham 2022 - dyma oedd un o'r croesiadau allweddol yn rhaglen 2022 a byddai MG yn ystyried ymhellach sut i fanteisio i'r eithaf ar gydweithio rhwng y prosiectau.
- Gan ddefnyddio'r ap i ymgorffori gwyddoniaeth a pheidio â chyfyngu i allbwn artistig yn unig gan fod MAP o'r farn y dylai fod yn gydweithrediad gwych – er enghraifft mae'r holl flodau wedi'u cynllunio'n greadigol ac nid yn seiliedig ar elfennau penodol. Dylai cynnwys defnyddwyr ganolbwyntio ar groesbeillio dulliau gweithredu a byddai'n myfyrio ar yr adborth ynghylch sut i gyflwyno mwy o wyddoniaeth.
- Hygyrchedd a phrofiad y gynulleidfa – rhoddodd y tîm fwy o fanylion am gynlluniau hygyrchedd gan sicrhau bod y profiad yn gwbl hygyrch.
- Perfformiadau byw – rhoddodd y tîm sicrwydd mai'r flaenoriaeth oedd bod cynulleidfaedd yn profi'r gosodiad.

Diolchodd y Cadeirydd y tîm Creadigol unwaith eto am fod yn bresennol.

Gadawodd tîm Creadigol PoliNations ac MSS y cyfarfod.

## **64/22 Trafodaeth ar Weithrediadau Mewnol a Pharodwydd i Dderbyn Risg: PoliNations**

Mae'r prosiect yn parhau i fod â sgôr goch oherwydd y risg o ffugio.

Roedd y Bwrdd yn poeni am lif y dorf a sut y byddai'n cael ei reoli. Dywedodd MG fod gan y tîm gynllun llif torf ar waith.

Teimlai AT y gallai'r prosiect hwn fod yn amserol i ennyn pandemig byd-eang a'r cysylltiad â rhagnodi cymdeithasol, arbrawf byw go iawn i wneud y cysylltiad â maes iechyd.

Gwiriodd HS a oedd yr ap yn barod i'w gyflwyno o gofio'r gwersi a ddysgwyd yn y rhaglen hyd yma. Roedd CR yn teimlo'n ffyddiog bod ap PoliNations mewn sefyllfa dda iawn a rhoddodd ragor o fanylion am ei brofiad defnyddiwr.

Nododd ES y penderfyniad i symud o ddau safle i un safle gan ddileu Caeredin.

### **Myfyrdodau a sylwadau i gloi**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd am y cyfraniadau gan atgoffa pawb bod cyfarfod Bwrdd ar lafar ar 26 Awst 2022. Yr unig bapurau, os o gwbl, fyddai ar gyfer penderfyniad. Nododd y Cadeirydd hefyd ei bod ar wyliau blynyddol o 24 Mehefin - 10 Gorffennaf.

### **Diwedd y cyfarfod**

Daeth y cyfarfod i ben am 14:15 gyda dim ond cyfarwyddwyr y Bwrdd yn aros ar-lein ar gyfer sesiwn gaeedig. Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf yn un ffurfiol ar 26 Awst 2022, 10:00 – 13:30, ar-lein.

Dosbarthu drwy e-bost oni nodir yn wahanol:





Cyfarwyddwyr y Bwrdd  
Arsylwyr y Bwrdd  
Tîm Rheoli Gweithredol

Dyddiad anfon at y Cadeirydd:	24 Awst 2022
Dyddiad dychwelyd at y Gweinyddwr:	25 Awst 2022
Dyddiad dosbarthu:	26 Awst 2022